**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS(2)-02-03(p.4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 25 Mehefin 2003** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Papur i'w nodi: Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 1) 2003** |

## 1. Diben

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am Orchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 1) 2003 arfaethedig.

## 2. Crynodeb

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r canlynol:

Cafodd Deddf Iechyd (Cymru) 2003 y Cydsyniad Brenhinol ar 8 Ebrill 2003. Mae Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 1) 2003 yn dod â'r mwyafrif o ddarpariaethau'r Ddeddf i rym.

## 3. Amseru

Yr amserlen arfaethedig yw i'r Gorchymyn drafft gael ei ystyried gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad ar 1 Gorffennaf, mewn Cyfarfod Llawn o'r Cynulliad ar 16 Gorffennaf, ac i ddarpariaethau mewn perthynas â'r Cynghorau Iechyd Cymunedol a Phroffesiynau Iechyd Cymru ddod i rym ar 30 Medi 2003 ynghyd â phwerau i greu rheoliadau mewn perthynas â Chanolfan Iechyd Cymru. Bydd y darpariaethau sy'n sefydlu Canolfan Iechyd Cymru yn ffurfiol yn dod i rym ar 1 Ebrill 2005. Mae'r papur hwn sydd i'w nodi, yn hysbysu'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o flaen llaw am yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig.

## 4. Y Cefndir

Mae'r Ddeddf yn cymryd y cam nesaf yng nghynlluniau'r Cynulliad i wella iechyd a lles pobl yng Nghymru ac mae'n rhoi llais cryfach i'r cyhoedd o ran cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd yn y wlad hon.

Mae'r Ddeddf yn:

- Diwygio a chryfhau'r Cynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru ac yn sefydlu corff statudol i'w cefnogi.
- Sefydlu Canolfan Iechyd Cymru annibynnol ar gyfer lledaenu ymchwil a chynnig cyngor a thystiolaeth amlddisgyblaethol ar gyfer cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

- Sefydlu Proffesiynau Iechyd Cymru er mwyn sicrhau ansawdd hyfforddiant ac addysg barhaus y gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd.

Cyflwynwyd drafft o'r ddeddfwriaeth sylfaenol at ddibenion craffu cyn-ddeddfwriaethol ac ymgynghoriad cyhoeddus. Craffodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol arno ar ran y Cynulliad Cenedlaethol.

**5. Ystyriaeth**

Yr Offeryn hwn yw'r Gorchymyn Cychwyn cyntaf o dan Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003. Mae Erthygl 3 yn dod ag adran 1 o'r Ddeddf ac Atodlen 1 i'r Ddeddf i rym sy'n ymwneud â Chynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru. Bydd y Cynghorau a sefydlwyd o dan adran 20 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol 1997 yn parhau i fodoli ac mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwer i lunio rheoliadau mewn perthynas â'u swyddogaethau. Yn ogystal, efallai y bydd y Cynulliad yn sefydlu corff statudol i gynghori a chynorthwyo Cynghorau Iechyd Cymunedol mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau.

Bydd cynghorau cymunedol yn Lloegr yn parhau mewn bodolaeth hyd nes cychwyn adran 22 o Ddeddf Diwygio Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

Mae Erthygl 4 yn cychwyn at ddibenion gwneud rheoliadau yn unig (mewn perthynas ag aelodaeth a swyddogaethau), adrannau 2 a 3 o'r Ddeddf a pharagraff 10 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, sy'n ymwneud â Chanolfan Iechyd Cymru. [Bydd y Ganolfan yn cael ei sefydlu, er mwyn ymgymryd â swyddogaethau sy'n ymwneud â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru, pan fydd adran 2 a 3 ac Atodlen 2 yn cychwyn at bob diben arall.]

Mae'r darpariaethau sy'n cael eu cychwyn gan Erthygl 2 i'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaethau sy'n gysylltiedig â Phroffesiynau Iechyd Cymru. Mae Adrannau 4 a 5 o'r Ddeddf yn rhoi pwer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sefydlu corff sy'n cael ei adnabod fel Proffesiynau Iechyd Cymru ac i wneud darpariaeth i Broffesiynau Iechyd Cymru gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â phroffesiynau gofal iechyd a chymorth gofal iechyd.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn cychwyn diwygiadau a dirymiadau canlyniadol.

Mae drafft o'r Gorchymyn Cychwyn (Atodiad A) a'r Memorandwm Esboniadol (Atodiad B) sy'n cyd-fynd ag ef wedi'u hatodi i'r papur hwn.

**6. Cydymffurfio**

Mae Adran 10 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003 yn rhoi pwer i'r Cynulliad gychwyn y Ddeddf ac i gychwyn gwahanol ddarpariaethau ar wahanol ddyddiau ac at ddibenion gwahanol. Nid oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

## 7. Themâu trawsbynciol

Nid oes themâu trawsbynciol.

## 8. Gweithredu

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r papur hwn.

**Jane Hutt**
**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## 9. Enwau cyswllt

Dylid anfon unrhyw gwestiynau ynghylch y papur hwn at y tîm sy'n delio â'r Mesur yn Adran GIG Cymru:

Bob Oliver, ffôn 029 2082 1054
Steve Davies, ffôn 029 2082 1158
Jo Cragg-Sapsford, 029 2082 1605
Marilyn St Roas, 029 2082 1607
Roger Milburn, 029 2082 6971.